

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL
GWEINIDOGION CYMRU
(RODNEY PARADE, CASNEWYDD)
2007**

**Deddf Awdurdod Datblygu Cymru
1975 (fel y'i diwygiwyd)
a Deddf Caffael Tir 1981
IS-DEDDDFWRIAETH
2007 Rhif. 44**

Mae Gweinidogion Cymru (a elwir yn "awdurdod caffael" yn y Gorchymyn hwn) yn gwneud y gorchymyn a ganlyn-

- 1 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, mae'r awdurdod caffael, o dan adran 21A ac Atodlen 4 i Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975, drwy hyn wedi ei awdurdodi i brynu'r tir a'r hawliau newydd dros y tir a ddisgrifir ym mharagraff 2 at ddibenion cynllun amddiffyn rhag llifogydd, rhodfa a llwybr beiciau ar hyd Glan Ddwyreiniol Afon Wysg sy'n ymgysylltu â rhwydwaith a ddatblygir dros Ganol Dinas Casnewydd a chynllun adfywio defnydd-cymysg sy'n cynnwys yn bennaf ddefnydd preswyl, defnydd manwerthol gydag elfennau o ddefnydd hamdden a defnydd swyddfa posibl ynghyd â gwaith gwella tir y cyhoedd.
- 2 -1 Y tir yr awdurdodir ei brynu yn orfodol o dan y Gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlen iddo ac amlinellir ac a ddangosir â lliw pinc ar fap a luniwyd yn ddyblyg ac a seliwyd â sêl gyffredin yr awdurdod caffael ac a farciwyd yn "Map y cyfeirir ato yng Ngorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Rodney Parade, Casnewydd) 2007".

-2 Yr hawliau newydd i'w prynu'n orfodol dros y tir o dan y Gorchymyn hwn yw'r rhai a ddisgrifir yn yr Atodlen a dangosir y tir â lliw glas ar y map a enwir

uchod.

- 3 Mae Rhannau 2 a 3 o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 drwy hyn wedi eu hymgorffori yn y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r addasiadau y dehonglir cyfeiriadau a geir ynddynt at yr ymgymeriad fel cyfeiriadau at ddatblygiad a adeiladwyd neu sydd i'w adeiladu ar y tir yr awdurdodir ei brynu neu ar y tir yr awdurdodir prynu hawliau drosto, yn ôl y digwydd.

**CYFLAWNWYD FEL
GWEITHRED drwy gymhwyso
sêl Gweinidogion Cymru**

DILYSIR cymhwysiad sêl
Gweinidogion Cymru gan
PATRICIA M CLARKE Uwch
Gyfreithiwr Masnachol
Gwasanaethau Cyfreithiol a
awdurdodir yn briodol at y diben
hwnnw gan Gyfarwyddwr
Gwasanaethau Cyfreithiol drwy
awdurdod Gweinidogion
Cymru o dan Adran 90(2) Deddf
Llywodraeth Cymru 2006

Llofnod.....

Enw.....

Teitl Swydd...Uwch Gyfreithiwr

DYDDIEDIG y 21 dydd o Fedi
2007

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU
(RODNEY PARADE, CASNEWYDD) 2007**

**PRYNU GORFODOL AM TIR A'R HAWLIAU NEWYDD AR DIR YN
RODNEY PARADE CASNEWYDD**

Hysbysir drwy hyn bod Gwenidogion Cymru, drwy arfer ei bwerau o dan y Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Caffael Tir 1981, ar 21 o Fedi 2007 wedi gwneud Gorchymyn Prynu Gorfodol Gwenidogion Cymru (Rodney Parade, Casnewydd) 2007 gydag addasiadau.

Mae'r Gorchymyn fel y cafodd ei wneud yn awdurdodi prynu'r tir a'r hawliau newydd a ddisgrifir yn yr Atodlenni i hyn at ddibenion cynllun amddiffyn rhag llifogydd, rhodfa a llwybr beiciau ar hyd Glan Ddwyreiniol Afon wysg sy'n ymgysylltu â rhwydwaith a ddatbligir dros Ganol Dinas Casnewydd a Chynllun adfywio defnydd-cymysg sy'n cynnwys yn bennaf ddefnydd preswyl, defnydd manwerthol gydag elfennau o ddefnydd hamdden a defnydd swyddfa posibl ynghyd â gwaith gwella tir y cyhoedd.

Mae copi o'r Gorchymyn fel y cafodd ei wneud gan Gweinidogion Cymru a chopi o'r map y cyfeirir ato ynddo, wedi cael eu hadneuo yn swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Tŷ Trafalgar, 5 Plas Fitzalan, Caerdydd, CF24 0ED ac yn swyddfeydd Cyngor Dinas Casnewydd y Ganolfan Ddinesig Casnewydd NP20 4UR.

Daw'r Gorchymyn fel y mae wedi'i wneud yn weithredol ar y dyddiad pan gyhoeddir yr hysbysiad hwn gyntaf. Caiff person a dramgwyddir gan y Gorchymyn, drwy wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos o'r dyddiad hwnnw, herio'i ddilysrwydd o dan adran 23 o Ddeddf Caffael Tir 1981. Y seiliau i'r her yw nad oes pŵer rhoi'r awdurdod a roddir gan y Gorchymyn, neu oherwydd bod methiant i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad statudol perthnasol ynglŷn â'r Gorchymyn.

NODYN

- a. Yn rhinwedd Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005 bernir bod y gorchymyn prynu gorfodol a elwir Gorchymyn Prynu Gorfodol (Rodney Parade, Casnewydd) Awdurdod Datblygu Cymru 2005 yn orchymyn prynu gorfodol sydd wedi'i wneud mewn drafft. Cafodd y drafft ei wneud ar ôl hynny a bellach gelwir ef yn Orchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Rodney Parade, Casnewydd) 2007.
- b. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru ar www.wales.gov.uk (detholer 'Llywodraeth Cynulliad Cymru, Deddfwriaeth, Deddfwriaeth mewn grym').

- c. Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth Llywodraeth Cynulliad Cymru, Tŷ Trafalgar, 5 Fitzalan Place, Caerdydd, CF24 0ED.

DATGANIAD O EFFAITH RHANNAU II A III DEDDF PRYNU GORFODOL (DATGANIADAU BREINIO) 1981

Pŵer i wneud datganiad breinio cyffredinol

1. Gweinidogion Cymru ("y Gweinidogion" o hyn allan) gaffael unrhyw ran o'r tir a ddisgrifiwyd yn yr Atodlen uchod drwy wneud datganiad breinio cyffredinol o dan adran 4 Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981. Effaith hyn, yn ddarostyngedig i baragraff 4 isod, yw breinio'r tir yn yr Gweinidogion ar ddiwedd y cyfnod a enwyd ym mharagraff 2 isod. Efallai na chaiff datganiad ei wneud cyn diwedd cyfnod o ddeufis o'r dyddiad y cyhoeddir hysbysiad am y tro cyntaf sy'n cynnwys y datganiad hwn ac eithrio pan fydd pob un o ddeiliaid y tir yr effeithir arno yn rhoi caniatâd yn ysgrifenedig.

Hysbysiadau sy'n ymwneud â datganiad breinio cyffredinol

2. Cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Gweinidogion wneud datganiad breinio cyffredinol, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad mewn perthynas ag ef i bob un o ddeiliaid unrhyw ran o'r tir a nodwyd yn y datganiad (ac eithrio tir pan fydd un o'r tenantiaethau a ddisgrifiwyd ym mharagraff 3) ac i bob person sy'n rhoi gwybodaeth iddo yn ymwneud â'r tir yn dilyn y gwahoddiad a gynhwysir mewn unrhyw hysbysiad. Pan fydd y broses o gyflwyno hysbysiadau o ddatganiadau breinio cyffredinol wedi dod i ben, bydd cyfnod arall yn dechrau. Nodir y cyfnod hwn, na fydd yn llai na 28 diwrnod, yn y datganiad. Ar y diwrnod cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod hwn ("y Dyddiad Breinio"), bydd y tir a ddisgrifir yn y datganiad, yn ddarostyngedig i'r hyn a ddywedir ym mharagraff 4, yn breinio yn y Gweinidogion, ynghyd â'r hawl i fynd ar y tir a'i feddiannu. Bydd gan bob person y gallai'r Gweinidogion fod wedi cyflwyno hysbysiad i drafod telerau mewn perthynas â'i fuddiant yn y tir (ac eithrio tenant o dan un o'r tenantiaethau a ddisgrifiwyd ym mharagraff 3) hawl i iawndal ar gyfer caffael ei fuddiant yn y tir, gyda llog ar yr iawndal o'r Dyddiad Breinio.

Addasiadau mewn perthynas â thenantiaethau penodol

3. Yn achos tenantiaethau penodol, mae'r sefyllfa a nodwyd uchod yn ddarostyngedig i addasiadau. Mae'r addasiadau yn gymwys pan fydd y denantiaeth naill ai'n "denantiaeth fer" h.y. tenantiaeth am flwyddyn, neu'n denantiaeth flynyddol neu'n fuddiant llai, neu'n "denantiaeth hir

sydd ar fin dod i ben". Mae'r ymadrodd olaf yn golygu tenantiaeth a roddir ar gyfer buddiant sy'n fwy na thenantiaeth fer ond sydd â chyfnod ar y Dyddiad Breinio a fydd yn para am gyfnod llai na'r cyfnod a nodir yn y datganiad at y diben hwn (sy'n gorfod bod yn fwy na blwyddyn). Wrth gyfrifo pa mor hir yw'r cyfnod sydd ar ôl gan denantiaeth, pan fydd unrhyw opsiwn i adnewyddu neu derfynu tenantiaeth ar gael i'r naill barti neu'r llall, rhagdybir y bydd y Landlord yn manteisio ar bob cyfle i derfynu'r denantiaeth tra bydd y tenant yn manteisio ar bob cyfle i gadw neu adnewyddu ei fuddiant.

4. Yr addasiadau yw na all y Gweinidogion arfer yr hawl i fynediad y cyfeirir ati ym mharagraff 2 mewn perthynas â'r tir sy'n ddarostyngedig i denantiaeth a ddisgrifir ym mharagraff 3 oni fydd yn cyflwyno hysbysiad yn gyntaf i drafod telerau mewn perthynas â'r denantiaeth ac yna cyflwyno hysbysiad i bob un o ddeiliaid y tir yn eu hysbysu o'i fwriad i fynd ar y tir a'i feddiannu ar ôl cyfnod (heb fod yn llai na 14 diwrnod o'r dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad) a nodwyd yn yr hysbysiad. Gellir arfer y pŵer i fynediad ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Bydd y broses o freinio'r tir yn ddarostyngedig i'r denantiaeth tan ddiwedd y cyfnod hwnnw neu tan i'r denantiaeth ddod i ben, pa un bynnag fydd yn digwydd gyntaf.

FFURFLEN AR GYFER RHOI GWYBODAETH

Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Rodney Parade, Casnewydd) 2007

**At: Llywodraeth Cynulliad Cymru, Tŷ Trafalgar, 5 Plas Fitzalan,
Caerdydd CF 24 0ED**

Yr wyf i/Rydym ni fel person/personau y byddai gennyf/gennym hawl, pe bai Datganiad Breinio Cyffredinol yn cael ei wneud o dan Adran 4 Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 mewn perthynas â'r holl dir a gynhwysir yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol a nodir uchod na rhoddir hysbysiad i drafod telerau mewn perthynas ag ef, i hawlio iawndal mewn perthynas â rhan o'r tir/â'r cyfan o'r tir hwnnw, yn rhoi'r wybodaeth ganlynol i chi yn unol â darpariaethau adran 3 y Ddeddf honno

1. Enw a chyfeiriad yr hysbyswyr (i)
2. Y tir y mae gan yr hysbyswyr fuddiant ynddo (ii)
3. Natur y buddiant (iii)

Llofnodwyd

(ar ran)

Dyddiad

- (i) Yn achos buddiant ar y cyd, rhowch enwau a chyfeiriadau pob un o'r hysbyswyr
- (ii) Dylid disgrifio'r tir yn gryno.
- (iii) Os mai prydles yw'r buddiant, dylid rhoi'r dyddiad dechrau a hyd y cyfnod. Os bydd y tir yn ddarostyngedig i forgais neu lyffethair arall, dylid rhoi manylion, e.e. enw'r gymdeithas adeiladu a'r rhif rôl.